Canolfan PENRALLT Centre

A community centre for Upper Bangor

Canolfan cymunedol ar gyfer Bangor Uchaf

Gwybodaeth ar gyfer unigolion a grwpiau Defnyddwyr

Y Cyfleusterau sydd ar gael:

- Neuadd (bydd digon o le i 80 ar ffurf theatr gyda dolen sain)
- Cegin
- Ystafell crèche (addas ar gyfer 5 plentyn o dan 3 oed)
- Ystafell Twrgwyn (hyd at 15 person, addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn)
- Uwch Ystafell (hyd at 15 person i fyny'r grisiau)
- Taflunydd Power point, OHP, Siart Droi
- System PA syml

Amserau ar gael

- Dydd Llun i ddydd Sadwrn, 9.00yb i 10.00yp
- Mae'n bosibl ei defnyddio'n gynharach neu'n hwyrach ond codir tâl ychwanegol
- Gwneir yr archebion ar sail y cyntaf i'r felin... gyda defnyddwyr rheolaidd yn gallu archebu bloc o sesiynau

Gweithgareddau/grwpiau cymwys:

Mae croeso i'r gweithgareddau a'r grwpiau canlynol

- Unigolion
- Grwpiau cymunedol
- Clybiau a chymdeithasau
- Mudiadau gwirfoddol
- Busnesau
- Digwyddiadau cymdeithasol
- Partïon plant
- Boreau coffi
- Grwpiau mam a'i phlentyn
- Digwyddiadau hyfforddi
- Cyfarfodydd

Gofynion ar grwpiau

- Gadewch y cyfleusterau fel y'u cawsoch nhw
- Cytuno i fod yn gyfrifol am unrhyw ddifrod a achosir gan eich grwp
- Yswiriant addas (trafodwch hyn gyda'r rheolwr archebion)
- Cydymffurfio â holl reolau'r Ganolfan, gan gynnwys iechyd a diogelwch, amddiffyn plant, cyfle cyfartal, polisïau gosod ystafelloedd a'r Iaith Gymraeg (gellir gweld y rhain ar gais).

Ffurflenni archebu lle:

- Gellir cael y rhain gan y rheolwr archebion (cyfeiriad isod)

Ffioedd Archebu:

Rheolwr Archebion: Gwyneth Brindley, 14 Victoria Park, Bangor, Gwynedd LL57 2EW
tel/ffôn: 01248 352682 email/ebost: canolfan@penrallt.org

Y Ganolfan Gyfan (sesiwn 3 awr)	Grwpiau cymunedol	Digwyddiadau preifat	
		Nid er mwyn gwneud elw	Er mwyn gwneud elw
	£35	£50	£100

Ystafelloedd unigol, yr awr	Grwpiau cymunedol		Digwyddiadau preifat	
	Awr gyntaf	Oriau ar ôl hynny	Di-elw	I wneud elw
Y Brif Neuadd a'r Gegin	£10	£5	£10	£40
Y Brif Neuadd a'r Crèche	£10	£5	£10	£40
Y Brif Neuadd, y Crèche a'r gegin	£12	£6	£12	
Ystafell gyfarfod	£5	£3	£5	£20
Ystafell gyfarfod a Crèche	£7	£4	£7	
2 Ystafell Gyfarfod	£7	£4	£7	
2 Ystafell gyfarfod a Crèche	£10	£5	£10	

- Grwpiau cymunedol yw grwpiau a chlybiau ym Mangor sy'n hybu ac yn cefnogi bywyd cymunedol ym Mangor ac Arfon trwy gynnal gweithgareddau sy'n agored i bawb.
- Digwyddiadau preifat yw archebion lle mae mynediad wedi'i gyfyngu i'r rhai a wahoddir gan y trefnydd. Bydd y ffioedd a godir ar y digwyddiadau hyn yn ddibynnol ar beth yw eu nod:
    - Ar gyfer gwneud elw (h.y. busnes neu sefydliad masnachol) neu
    - Nid ar gyfer gwneud elw (h.y. parti preifat neu grwp yn y sector gwirfoddol neu elusen neu gorff cyhoeddus sy'n darparu hyfforddiant neu wasanaethau neu'n cynnal digwyddiad codi arian)
- Codir tâl am y gegin os oes bwyd yn cael ei baratoi neu os byddwch ei hangen ar eich cyfer chi yn unig. Ni chodir tâl am y cyfleusterau gwneud te a choffi.

Talu:

- Bydd defnyddwyr rheolaidd yn gallu talu'n fisol neu mewn rhandaliadau addas
- Bydd angen talu blaendal o draean o'r ffi ar gyfer archebion unigol, gyda'r balans i'w dalu ar y diwrnod yr archebwyd y lle ar ei gyfer neu cyn hynny.

Gweithgareddau nad ydynt yn cael eu caniatáu

Oherwydd cyfyngiadau cyfreithiol a gweithred ymddiried perchennog yr adeilad (Eglwys y Bedyddwyr Penrallt), ni chaniateir y gweithgareddau canlynol:

- Gwerthu nac yfed alcohol
- Hapchwarae (caniateir rafflau bach ond nid rhai mawr swyddogol)
- Hyrwyddo unrhyw grefydd neu athroniaeth bywyd ac eithrio'r ffydd Gristnogol
- Gweithgareddau anghyfreithlon neu anfoesol
- Gweithgareddau eraill y gall y perchennog eu hystyried yn rhai amhriodol

Os nad ydych yn sicr, cysylltwch â'r rheolwr archebion.

Rheolwr Archebion: Gwyneth Brindley, 14 Victoria Park, Bangor, Gwynedd LL57 2EW
tel/ffôn: 01248 352682 email/ebost: canolfan@penrallt.org